CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor**
**nos Lun 3 Hydref 2016**

**Presennol:** Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyngr: Colin Lewis, Ken Symmons, Mrs Eleri Davies, Iwan Davies, Hywel Davies, Bryan Rees, Peter Hazzelby

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: Dim

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyngr Mrs Jina Hawkes, Amanda Edwards a'r Cyng Sirol H Lewis

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Dim.

**4. Materion Personol**
Dim.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Hysbysiad Apelio: A160392 Parhau i ddefnyddio cegin i baratoi a gwerthu bwyd i'w fwyta allan, Nythfa, Llechryd Nodwyd.

*CSC: Cofnodion y Pwyllgor Rheoli Datblygiad*
Gofynnwyd a ellid darparu cofnodion y gymdeithas tai ac unrhyw ddiweddariadau ar gyfer yr ardal, fel y nodwyd yn y ddogfen, i fod ar gael i bawb.

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Gofynnodd yr Cyng C Lewis am i'r cofnodion gael eu newid i ddangos ei fod ef wedi mynegi pryder am y tyfiant ar y llwybr troed ar hyd wal Glanant. Gan fod hyn wedi'i gytuno, cynigiodd y dylid derbyn cofnodion 5.09.16 fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng I Davies, a chytunwyd yn unfrydol.

**7. Materion yn Codi**

Dywedodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â CSC ynglŷn ag arwydd enw'r pentref gan ei fod mewn cyflwr gwael. Gobeithiai y byddai'n bosibl ei adnewyddu am ddim.
Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gosod yr ail glo ar y bloc toiledau. Awgrymwyd trydydd cwmni ar gyfer dyfynbris am y gwaith trydan yn y bloc.
Roedd y gosodiad ar gyfer y goleuadau trydan yn yr Eglwys wedi'i adnewyddu, a dywedodd y Cyng B Rees nad oedd Mr Harman yn dymuno gwneud y gwaith cymhennu yn yr Eglwys.

**8. Cyllid a Gweinyddu**

*Taliadau yn yr Arfaeth*

| | **Talai** | **Am** | **banc** |
|---|---|---|---|
| 3.10.16 | Mathew Penny | Gosodiad ar gyfer goleuadau Nadolig yn yr Eglwys | 95.47 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Abacus | Glanhau'r bloc toiledau | 170.00 | |
| | SSE Swalec | Trydan i'r Bloc Toiledau | 29.10 | |
| | Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol | Aelodaeth y Clerc | 56.62 | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y Cartref Medi | 25.00 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio'r Neuadd | 15.00 | |
| 30.10.16 | S E Houghton | Cyflog Hydref | 322.53 | AS |

Cynigiwyd gan y Cyng B Rees, eiliwyd gan y Cyng C Lewis, cytunwyd yn unfrydol.

Nid oedd adroddiadau banc Medi wedi cyrraedd ond cyfrifwyd y gweddill yn fras fel hyn:

| | |
|---|---|
| Ar 12/08/16 y gweddill heb ei addasu oedd | £21502.09 |
| Gwariant Medi | £1302.05 |
| Gweddill yn fras hyd yma: | £20200.85 |
| | |
| Gwariant (6 mis) hyd at 5.09.16 | £8951.53 |

*Rhoddion*

*Blwyddyn Ariannol 2016/17 – Swm y gyllideb* 2250
*Ceisiadau Hydref 2016*
Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion
Theatr Felin-fach
Sefydliad Fuddiannol Amaethyddol Ceredigion
Age Cymru
Shelter Cymru
Theatr Troed-y-rhiw

Ar ôl trafodaeth cynigiodd y Cyng C Lewis gyfrannu £200 yr un at yr uchod, eiliwyd gan y Cyng Mrs E Davies, cytunwyd y unfrydol.

*Cyllideb*
Roedd y Clerc wedi darparu copïau caled o ffigurau'r gyllideb. Esboniodd y byddai angen i'r cais presept gael ei gyflwyno i CSC ym mis Ionawr 2017. Gofynnwyd i bob Cynghorydd edrych ar y ffigurau i baratoi ar gyfer trafodaeth yng nghyfarfod mis Tachwedd. Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr godi unrhyw gwestiynau am y ffigurau cyn cyfarfod mis Tachwedd er mwyn iddi allu cael atebion iddynt cyn y cyfarfod.

*TAW a PAYE i HMRC*
Roedd HMRC wed gofyn am i'r holl TAW yn ymwneud â'r cae chwarae o fis Chwefror 1990 hyd heddiw gael ei nodi. Cadarnhaodd y Clerc fod y cyfrif a'r llyfrau cofnodion am y cyfnod ganddi a dywedodd nad oedd ganddi ddim syniad faint o amser fyddai'r gwaith angenrheidiol yn ei gymryd. Cytunwyd y dylai'r Clerc gychwyn ar y gwaith a rhoi gwybod i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.
Nodwyd bod HMRC wedi gofyn am beidio â gwneud gwaith cyfalaf ar dir yr elusen nes i'r sefyllfa TAW gael ei datrys.
Byddai hi hefyd yn mynd ar ôl HMRC i gael ymateb i'r cwestiwn ar PAYE.
**GWEITHREDU:** Mynd ar ôl HMRC ynglŷn â PAYE a dechrau gwaith TAW gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd GAN: Y Clerc

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

*Blychau Blodau – pentref yn ei flodau*
Byddai angen i swyddog priffyrdd drafod y lleoliadau er mwyn cadarnhau a fyddai'r lleoliadau'n addas. Gallai'r adran priffyrdd fynnu bod y blychau blodau'n cael eu trwyddedu yn unol ag Ad.155E o Ddeddf Priffyrdd 1980.
**GWEITHREDU:** Cysylltu ag adran priffyrdd CSC i drefnu dyddiad a rhoi gwybod i bawb GAN: Y Clerc

*Cynllun Mabwysiadu Llwybr*
Roedd mapiau wedi eu darparu. Roedd y cynllun yn cael ei hysbysebu o gwmpas y gymuned, a chytunodd y Cyng B Rees i osod hysbysiadau ar rai o'r llwybrau mwyaf poblogaidd.

**10. Amwynderau**
*Bloc Toiledau*

Roedd enw un cwmni trydan wedi ei roi i'r Clerc a byddid yn trefnu ymweliad safle gyda hwnnw. Darparwyd enw pellach i'r Clerc gysylltu ag ef.
**GWEITHREDU**: Mynd ar ôl y dyfynbrisiau GAN: Y Clerc

*Yr Hen Eglwys*
Roedd y Cyng B Rees yn garedig iawn wedi cynnig gwneud ychydig waith twtio cyn y gwasanaeth. Cynigiodd y Cadeirydd a'r Cyng P Hazzelby helpu.
**GWEITHREDU:** Dyddiad i'w gytuno i wneud y gwaith
Nodwyd bod angen rhoi sylw i'r seddau.

*Contract torri porfa*
Oherwydd yr holl dyfiant gyda'r tywydd teg, cytunwyd y dylid cynyddu torri porfa ar y cae chwarae i unwaith bob pythefnos. Dylid ychwanegu clirio mwsogl a thyfiant ar y llwybr rhedeg, a chymhennu ymylon y llwybrau i gyd, a dylid cynnwys cymhennu ddwywaith y flwyddyn ac o gwmpas adeiladau'r hen eglwys. Byddai dewis hefyd i ofyn am doriadau cynharach a diweddarach yn y flwyddyn, yn ôl y tymor tyfu.
**GWEITHREDU:** Paratoi dogfennau dyfynbrisiau gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a'u hysbysebu. GAN: Y Clerc

**11. Prosiectau'n Parhau**
*Costau Llythyr Newyddion ar gyfer y gyllideb* – wedi'i ohirio.

*Gwylio Cyflymder*
Dywedodd y Clerc ei bod wedi mynd ar ôl CSC i gael y wybodaeth. Gofynnodd y Cyng C Lewis a ellid gofyn i CSC pam roedd cofnodi cyflymdra cerbydau wedi'i osod 80 llath i lawr y rhiw o'r cyfarpar parhaol.
**ACTION:** Holi CSC GAN: Y Clerc

*Cynllunio mewn Argyfwng*
Wedi'i ohirio.

*Diffibrileiddiwr*
Hyfforddiant – Wedi'i ohirio.

**12. Digwyddiadau**
*Gwasanaeth cyflwyno* i ddigwydd ar 8.10.16 yng Nghroes-y-llan am 10am, Eglwys Llechryd am 10.30, yna lluniaeth yn yr ysgol.
Byddai baneri'r Lleng Brydeinig Frenhinol a Chymdeithas Frenhinol y Morluoedd yn bresennol. Byddai'r ATC hefyd yn bresennol gyda'u baner a byddai Cadetiaid Môr Abergwaun yn gorymdeithio.

*Goleuadau Nadolig – dyddiad i'r dyddiadur*
1.12.16, 6pm yn yr ysgol a phasteiod Nadolig i ddilyn yn y 7 Seren.
**GWEITHREDU**: Trefnu'r 7 Seren ar gyfer 6.45pm GAN: Y Cadeirydd
**GWEITHREDU:** Trefnu trydanwr GAN: Y Clerc

13**. Adroddiadau Cyfarfodydd**
Dim.

1**4. Gohebiaeth + gohebiaeth e-bost**

*CSC: Cyfarfod Ymgynghorol 2016 – Festri'r Tabernacl, Aberteifi, 23.11.16 am 6.*30pm.
Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn bresennol ac y byddai eitemau i'w trafod ar yr agenda ym mis Tachwedd.
**GWEITHREDU:** Cadarnhau bod yn bresennol ac eitem ar yr agenda GAN: Y Clerc

*Arolwg o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – cynigion cychwynnol*
**GWEITHREDU:** Cylchredeg gwybodaeth ar gyfer agenda mis Tachwedd GAN: Y Clerc

*YMGYNGHORIAD AR WAREDU FFONAU TALU BT*
Cytunwyd nad oedd dim gwrthwynebiad i'r cynnig i waredu'r ffôn talu yn Llechryd.

*Nodwyd pob eitem arall:*
YMUNWCH Â'R "SGWRS FAWR" Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn ar 1 Hydref

Cyfarfod cyhoeddus Hywel Dda, 22.09.16 am 10am a CCB i ddilyn am 5.30pm

Un Llais Cymru: Cyfleoedd Penodiadau Cyhoeddus

Un Llais Cymru: Ymateb i'r cynnig ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Dywedodd y Cyng K Symmons ei fod wedi cael cwynion fod y postyn teleffon wrth enw'r pentref wedi ei osod yn rhy agos i'r ffordd. Erbyn hyn roedd hynny wedi'i gywiro.

Gofynnodd y Cyng C Lewis am i eitem ar agenda mis Tachwedd fod yn gais i CSC fabwysiadu polisi o wynebau ffyrdd tawel mewn ardaloedd preswyl.
**GWEITHREDU:** Eitem ar yr agenda ar gyfer mis Tachwedd GAN: Y Clerc

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 7.11.16 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm*

Yn union ar ôl cyfarfod y Cyngor Cymuned cynhaliwyd cyfarfod o Elusen Cymdeithas Cae Chwarae Llechryd.